

Corff Llywodraethol Ysgol Abercaseg, Bethesda

Adroddiad Blynyddol i'r Rhieni/Gofalwyr

Cyflwynir yr adroddiad hwn ar sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn 2014-15.

Cadeirydd 2014-15: Ms Fflur Roberts, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, LL57 3TE
Clerc: Ms Eirian Wynne, Bronydd Uchaf, Llanllechid, LL57 3LL

Pwy oedd aelodau'r Corff Llywodraethol?

<u>Enw</u>	<u>Cynrychioli</u>	<u>Dyddiad ethol/ apwyntio</u>	<u>Dyddiad diwedd eu cyfnod</u>
Hedd Rhys	Rhieni/gofalwr	09/14	08/18
Fflur Roberts	Rhieni/gofalwr	09/11	08/15
Emma Pritchard	Rhieni/gofalwr	09/13	08/17
Sioned Ryder	Rhieni/gofalwr	09/13	08/17
Emyr Roberts	Cymunedol	09/12	08/16
Gwilym Owen	Cymunedol	09/13	08/17
Bryan Griffiths	Cymunedol	09/13	08/17
Non Thomas	Cymunedol	09/13	08/17
Rheinallt Puw	Awdurdod Addysg	09/14	08/18
Ann Williams	Awdurdod Addysg	09/12	08/16
Linda Brown	Awdurdod Addysg	09/12	08/16
Yvonne Griffiths	Athrawon	09/11	08/15
Karen Briggs	Staff Ategol	09/11	08/15
Ceren Lloyd	Pennaeth Strategol dros dro		

Pryd fydd yr etholiad nesaf am riant-lywodraethwr?

Cynhaliwyd etholiad ar gyfer penodi riant-lywodraethwr yn ystod tymor yr Hydref 2015.

Rhagwelir y bydd yr etholiad nesaf ar gyfer penodi riant-lywodraethwr yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr Hydref 2017.

Pryd fu'r Corff yn cyfarfod?

2014 - Hydref 1af, Rhagfyr 3ydd

2015 - Mawrth 11eg, Gorffennaf 8fed

A gynhaliwyd cyfarfod i rieni gyda'r llywodraethwyr?

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Cymru 2013 nid oes rhaid i

Gyrff Llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Bellach mae'r

Ddeddf yn caniatáu i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda llywodraethwyr mewn blwyddyn ysgol. Gellir cael mwy o fanylion ar sut i ofyn am gyfarfod drwy gysylltu â'r ysgol.

Ni dderbyniwyd cais gan rieni i gynnal cyfarfod gyda'r llywodraethwyr o dan y ddeddf uchod.

Beth fu'r sefyllfa o ran plant a staffio?

Agorodd yr ysgol ym Medi 2014 gyda 114 o blant ar y gofrestr. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 110 ar y gofrestr.

Cyflogir 3 aelod o staff addysgu llawn amser a 2 rhan amser. ynghyd â chymorthyddion i gefnogi'r dysgu ymhob dosbarth. Cyflogwyd Pennaeth Strategol rhan-amser yn ystod cyfnod y Pennaeth ar secondiad i Estyn.

Tymhorau a sesiynau

2014/15

TYMOR:

Hydref 2014	1 Medi 2014 - 19 Rhagfyr 2014
Gwanwyn 2015	5 Ionawr 2015 - 27 Mawrth 2015
Haf 2015	13 Ebrill 2015 - 20 Gorffennaf 2015

2015/16

TYMOR:

Hydref 2015	1 Medi - 22 Rhagfyr 2015 <i>(gwyliau hanner tymor: 26 - 30 Hydref 2015)</i>
Gwanwyn 2016	4 Ionawr - 24 Mawrth 2016 <i>(gwyliau hanner tymor: 15 - 19 Chwefror 2016)</i>
Haf 2016	11 Ebrill - 18 Gorffennaf 2016 <i>(gwyliau hanner tymor: 30 Mai - 3 Mehefin 2016)</i>

Sesiynau'r ysgol: 9.00am-12.00pm ac 1.00pm-3.00pm

(Agorir y drysau am 8.50yb.)

Dyddiadau hyfforddiant mewn swydd: 1/9/15, 23/10/15, 4/1/16, 12/2/16, 6/6/16

Cwricwlwm a threfniadaeth addysg

Mae ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion ar draws yr ysgol, yn bwysig iawn i ni. Cynigir cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd â'r holl ofynion statudol. Mae'r athrawon yn parhau i adolygu'r cwricwlwm yn gyson yn sgil unrhyw ddatblygiadau newydd ee Fframwaith Cyfnod Sylfaen 2015. Mae'r disgyblion yn dysgu drwy profiadau oddi mewn i'r dosbarth ac yn yr awyr agored. Mae pwyslais mawr ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau meddwl y disgyblion ar draws holl feysydd dysgu'r cwricwlwm. Caiff yr medrau yma eu hymgorffori i gynlluniau gwaith tymor hir\canolig\byr yr athrawon a caiff cynnydd ei dracio yn cyson drwy weithredfau tracio a thargedau'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau fod pob disgybl yn gwenud cynnydd yn unol â'i allu.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref o fewn y cwricwlwm, lle caiff y disgyblion ddysgu am enwogion, arlunwyr, awduron a chwedlau, yn ogystal â dearyddiaeth Cymru a'r ardal leol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod pob plentyn yn teimlo'n rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol ac yn cyflawni eu potensial fel unigolion. Mae'r ysgol yn adolygu y polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn rheoliadd er mwyn sicrhau cefnogaeth addas i ddisgyblion.

Beth ddiwyddodd yn yr ysgol o ran Anghenion Addysgol Arbennig?

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi o geisio adnabod anghenion addysgol arbennig mor fuan â phosibl yng ngyrfa'r plentyn yn yr ysgol gan gysylltu ac ymgynghori â'r rhieni/gofalwyr.

Dyma faint oedd ar y gofrestr ADY ym Medi 2014:

Gweithredu gan yr Ysgol	Mynegi Pryder (Ysgol yn unig)	8
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Cynllun Addysg Unigol gyda chyfraniad asiantaeth allanol	4
Gweithredu 3*	Cynllun Addysg Unigol a chymorth ychwanegol gan athro/athrawes arbenigol	1
Asesu Statudol a Datganiad	Ar Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig	1

Gosodir targedau unigol penodol a mesuradwy ar gyfer pob disgybl a thrafodir y rhain gyda'r rhieni. Adolygir y targedau yma ddwy waith y flwyddyn.

Roedd 2 gymhorthydd GAD yn cymryd 'grwpiau ymyrraeth' i weithio ar sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Mae therapyddion iaith a lleferydd, athrawes arbenigol ac athrawes gwybyddiaeth a dysgu wedi bod draw yn rheolaidd i weld plant sydd ar y gofestr gyda staff yr ysgol yn gweithredu ar eu hargymhellion.

Caiff plant eu tracio'n dymhorol er mwyn mesur unrhyw gynnydd. Mae'r cymorthyddion a'r athrawes AAA yn sicrhau bod yr holl weithgareddau y maent yn eu cyflwyno yn seiliedig ar dargedau unigol y disgyblion. Adroddir yn ôl i'r athrawes dosbarth a'r cyd-lynnwyr AAA yn gyson ar ddatblygiad y plant.

Beth wnaeth yr ysgol yn y gymuned?

Mae'r ysgol yn ymwybodol iawn o'i rhan bwysig yn y gymuned ac o'r herwydd mae'n ceisio meithrin cysylltiadau a chyfrannu i weithgareddau ar sawl lefel. Dyma grynodedb o weithgareddau y llynedd:

- cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen (gwaith cartref a llwyfan)
- cystadlu yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen
- cystadlu gyda gwaith celf a llwyfan yn Eisteddfod yr Urdd
- cynnal cyngerdd Nadolig yn Ysgol Dyffryn Ogwen
- cyswllt agos ag Ysgol Pen y Bryn (ymweliadau ayyb) a chydweithio â nifer o ysgolion ar agweddau cwricwlaidd
- cymryd rhan mewn cyngherddau
- nifer o ymweliadau gan ymwelwyr i'r ysgol, e.e. yr heddlu, y gwasanaeth tân, yr archifdy, therapydd galwedigaethaol, swyddog arbed ynni, deintydd a swyddogion y Cynllun Gwên, Swyddog 'Gyda'n Gilydd', arbenigwr i addysgu gwersi tenis
- ymweliadau addysgol yn ymwneud â thema dosbarth

- cynnal prynhawn agored i ddarpar rieni
- cynnal nosweithiau cwricwlaidd ym maes llythrennedd a rhifedd
- cynnal sesiynau 'Dysgu Teulu'
- hyfforddi darpar athrawon o Brifysgol Bangor
- gweithgareddau codi arian gan y Cyfeillion
- casglu arian tuag at elusennau lleol a rhyngwladol
- parhau gyda'r cyswllt â theulu ym Mhatagonia
- cydweithio ag aelodau o'r gymuned i gynnal a chadw gardd yr ysgol
- casglu bocsys 'sgidiau' tuag at 'Operation Christmas Child'
- casglu sbwriel o amgylch y pentref fel rhan o ymgyrch Wythnos Cymru'n Daclus
- planu coed fel rhan o ymgyrch yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Beth oedd prif dargedau'r ysgol am y flwyddyn 2014-2015 a sut llwyddwyd i'w cyflawni?

BLAENORIAETH 1: RHIFEDD

Datblygu ymhellach medrau rhesymu rhifyddol ar draws yr ysgol er mwyn codi safonau rhifedd.

Nôd : 45% or disgyblion yn cyrraedd D6 erbyn diwedd Blwyddyn 2 yn yr agwedd Defnyddio a Chymhwyso mewn gweithgareddau rhifedd yn drawsgwricwlaidd.

- Aseidiadau Incerts yn dangos fod 54% o ddisgyblion BI2 wedi cyflawni D6 erbyn diwedd Blwyddyn 2 yn yr agwedd 'Defnyddio a Chymhwyso' o fathemateg . Canlyniadau y profion cenedlaethol rhesymu hefyd yn dangos fod 50% wedi sgorio rhwng 100 a 115 a 37.5% wedi sgorio > 115 sy'n lleoli'r ysgol yn Chwartert 1.

Nôd: 31% or ddisgyblion ffiniolymyrraeth BI2 yn cyrraedd D5 mewn mathemateg erbyn diwedd y flwyddyn addysgol.

- 95.5% o ddisgyblion wedi cyflawni D5+ mewn mathemateg sy'n sylweddol uwch na'r targed.
- 4.2% wedi cyrraedd D4 gyda un plentyn 3* ADY sy'n gynydd da o ystyried anghenion y disgybl.

Nôd: Sgoriau safonedig y disgyblion yn y profion rhesymu yn dangos cynnydd gyda 90% yn sgorio 85 neu uwch gyda'r % sy'n sgorio rhwng 116 a 140+ yn codi i 25%.

- 96% o'r disgyblion yn sgorio 85 neu uwch gyda'r % sy'n sgorio rhwng 116 – 140+ wedi codi i 37.5% sy'n llawer gwell na'r targed.

Nôd: Codi lefel yr her yn yr addysgu ar draws yr ysgol gyda phob disgybl yn cael eu hymestyn i'w llawn potensial

- Adroddiadau monitro ,craffu drwy lyfrau cynlluniau gwaith,dadansoddiadau data a dadansoddiad o brofion NFER a Bury yn dangos fod bron bob un disgybl wedi gwneud cynnydd da neu well rhwng Hydref 2014 a Ebrill 2015 a bod gweithgareddau gwahaniaethol ac ymestynnol yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau yn galluogi fod bron pob disgybl yn cael ei ymestyn i'w llawn botensial.

Nôd: Gwella ddarpariaeth drwy gynllunio'n briodol ar gyfer datblygu holl sgiliau mathemategol o fewn sesiynau mathemateg pen gweithgareddau dosbarth ac yn yr ardal tu allan.

- Cyrsiau rhesymu Carol Ayres ar gyfer BI 1 a BI 2 a chynllunio effeithiol ar y cyd ar gyfer datblygu holl medrau mathemategol o fewn y sesiynau mathemateg pen, gweithgareddau dosbarth ac yn yr ardal tu allan wedi arwain at bron bob un disgybl yn cyflawni D5+ (96%) mewn mathemateg gyda mwyafrif sef 66.7% wedi cyrraedd D6.

Nôd: Targeddu disgyblion sydd a sgor safonedig rhwng 90 – 115 yn NFER.

- Penodwyd cymorthyddion i ddatblygu sgiliau rhifedd a grwpiau amddifadedd gyda'r cymorthyddion yn monitro eu datblygiad. O ganlyniad, llwyddodd 58.3% o'r disgyblion i sgorio >115 yn y profion cenedlaethol.

Nôd: Y goreuon o dosbarthiadau Derbyn a BI2 wedi cael eu herio i gyflawni gwaith ymestynol mewn mathemateg gan barhau i dargeddu y disgyblion ffiniol.

- Cadarnhawyd hyn drwy edrych ar ganlyniadau Incerts, craffu ar lyfrau'r plant ynghyd a chynlluniau gwaith a chanlyniadau profion NFER + Bury.

Nôd: Codi % disgyblion y grwpiau ymyrraeth ac ADY sy'n cyrraedd Deilliant 5 yn eu medrau rhesymu drwy ddatrys problemau "go iawn".

- Bu i 95.8% o ddisgyblion y grwpiau ymyrraeth gyflawni D5 mewn medrau mathemategol gan gymwysu y medrau'n llwyddiannus mewn problemau rhifyddol trawsgwricwlaidd. Mae hyn yn gynydd o'r 43% o ddisgyblion y grwpiau ymyrraeth a llwyddodd i gyflawni D5 yn 2013/2014.

Nôd: Parhau i gynllunio cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddatblygu medrau rhesymu rhifyddol yn drawsgwricwlaidd drwy ddatrys problemau 'go iawn' dau gam neu fwy. Datblygu ymhellach y ddarpariaeth awyr agored fel bod yr ardal allanol yn cyfrannu'n llawn at addysgu'r disgyblion.

- Cyfleoedd cyson da iawn ym mlynnyddoedd Derbyn, BL 1 a BL 2 i ddatblygu medrau rhifyddol yn drawsgwricwlaidd drwy ddatrys problemau 'go iawn' sy'n briodol i oed a gallu'r disgyblion. O ganlyniad, cafodd bron bob un o ddisgyblion BI2 sgor safonedig o 85+ yn y Profion Cenedlaethol Rhesymu gyda 50% o ddisgyblion yn sgorio rhwng 100 -115 a 37.5% yn sgorio >115
- Llauer o'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddatrys problemau go iawn o fewn yr ardal tu allan. Fodd bynnag nid yw'r cynllunio ymhob dosbarth yn cynnwys digon o gyfleoedd i'r disgyblion wneud penderfyniadau eu hunain ynglŷn a'r gweithdrefnau mathemategol priodol i'w defnyddio ar gyfer cymhwyso a datrys problemau.

BLAENORIAETH 2: LLYTHRENNEDD

**Datblygu geirfa a medrau ysgrifennu estynedig ar draws yr ysgol
Datblygu ymhellach fedrau'r disgyblion i ddehongli testunau darllen**

Nôd: 36% o ddisgyblion BI 2 yn cyrraedd D6 mewn ysgrifennu

Asesiadau Incerts Mehefin 2015 yn dangos:

96% o blant BI 2 wedi cyrraedd deilliant 5+ mewn ysgrifennu – sylweddol uwch na'r targed.

67% wedi cyrraedd D6.

29% wedi cyrraedd D5.

4% wedi cyrraedd D4, sef un plentyn 3*, sydd yn gynydd da o ystyried anghenion y disgybl.

Canlyniadau datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu, asesiadau diwedd CS :

D5 100% D6 70.8%

Nôd: 31% o'r disgyblion ymyrraeth yn cyrraedd D5 mewn ysgrifennu

Asesiadau Incerts Mehefin 2015 yn dangos:

80% o'r grwp ymyrraeth wedi cyrraedd D5 mewn ysgrifennu – sylweddol uwch na'r targed.
20% wedi cyrraedd D4 sef un plentyn 3*, sydd yn gynydd da o ystyried anghenion y disgybl.

Nôd: 20% o ddisgyblion ffiniol BI 1 yn cyrraedd D4 mewn ysgrifennu.

Asesiadau Incerts Mehefin 2015 yn dangos:

100% o ddosbarth BI 1 wedi cyrraedd D4 mewn ysgrifennu – sylweddol uwch na'r targed.
32% yn cyflawni gofynion D5 ac yn dechrau cyflawni gofynion D6.
63% o blant yn dechrau, weithiau yn, neu yn cyflawni gofynion D5.
5% o ddisgyblion y dosbarth, sef plentyn ar Ddatganiad AAA, yn dechrau cyflawni gofynion D4.

Nôd: 90% yn sgorio 85 neu fwy yn y profion darllen cenedlaethol gyda 25% o'r rhain yn sgorio rhwng 116 a 140+

- 96% wedi sgorio 85 neu fwy yn y profion darllen cenedlaethol gyda 20.8% o'r rhain yn sgorio rhwng 116 a 140+. Fodd bynnag, mae targedu darllen, ac yn arbennig y disgyblion ffiniol D5\6 a medrau darllen a deall yr haen uchaf yn parhau yn flaenoriaeth(CDY 2015-16). Mae canran yr ysgol o 20.8% yn >115 ychydig is na'r ALI ond yn uwch na Chymru(17%).

Nôd: Pob disgybl yn cael eu hymestyn hyd eithaf ei gallu

- Asesiadau Incerts Mehefin 2015 yn dangos:
100% o blant BI 2 wedi cyrraedd deiliant 5+ mewn llythrennedd.
71% wedi cyrraedd D6.
29% wedi cyrraedd D5.
- Tystiolaeth o wahaniaethu gyda lefel yr her yn ymestynnol ac yn briodol i oed a gallu'r disgyblion yn y cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro/arsylwi gwersi/craffu ar lyfrau ac yng ngwaith y plant.
- Adroddiad Monitro Incerts yn dangos bod y mwyafrif o blant Meithrin, y rhan fwyaf o ddisgyblion Derbyn a BI 2 a bron bob un disgybl BI 1 ar darged neu uwchlaw eu targed ym maes llythrennedd.
- Adroddiadau monitro gan cymorthyddion y grwpiau targed yn dangos bod bron bob un plentyn yn y grwpiau ymyrraeth gynnar wedi gwneud cynnydd da dros y flwyddyn ysgol yn eu sgiliau llythrennedd a'r rhan fwyaf wedi gwneud cynnydd da iawn.
- Grwpiau ymyrraeth gynnar yn sicrhau fod disgyblion yn cael sylw penodol mewn grwpiau bach yn rheolaidd tra bod athrawes a chymhorthydd y dosbarth yn canolbwyntio ar osod targedau heriol i'r haenau canol ac uwch.
- Canlyniadau Prawf Darllen Cymru Gyfan yn dangos bod bron bob un plentyn BI 2 wedi gwneud cynnydd da neu well rhwng Hydref 2014 ac Ebrill 2015.

Nôd: Medrau darllen a deall y disgyblion yn datblygu

Asesiadau Incerts Mehefin 2015 yn dangos:
100% o ddisgyblion BI 2 wedi cyrraedd D5+ mewn darllen. 75% wedi cyrraedd D6.
Plant PYD BI 2 – 100% wedi cyrraedd D5+ mewn darllen. 60% wedi cyrraedd D6.
Safonau yn arbennig o dda a'r disgyblion wedi gwneud cynnydd da iawn oherwydd y canlynol:
Profion Cenedlaethol:

Cymraeg		Bechgyn			Merched			Pawb		
Blwyddyn		Ysgol	ALI	Cymru	Ysgol	ALI	Cymru	Ysgol	ALI	Cymru
Gwr. + Ben. : Pawb										
2	<85	0.0	16.6		6.3	6.6		4.2	11.7	
	85-100	12.5	30.2		6.3	25.9		8.3	28.1	
8 + 16 : 24	100-115	50.0	36.5		75.0	40.3		66.7	38.4	
	>115	37.5	16.7		12.5	27.1		20.8	21.8	

- Sesiynau dyddiol ar gyfer datblygu sgiliau ffoneg a darllen ymhob dosbarth – tasgau amrywiol yn cynnwys adnoddau TGCh a defnydd o apiau(gweler adroddiadau monitro)

- Staff yr ysgol wedi derbyn copi o'r math o gwestiynau i'w gofyn i hybu dealltwriaeth y plentyn o destun – hyn yn sicrhau cysondeb o ran arddull cwestiynu yr holl athrawon a chymorthyddion a disgyblion ar draws yr ysgol yn arfer gyda'r math hyn o gwestiynu.
- Athrawon wedi creu adnoddau darllen a deall ar gwahanol destunau yn briodol i oed a gallu'r disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion BI 1 yn dechrau arfer a disgyblion BI 2 yn hyderus gyda phatrwm penodol o gwestiynau sy'n cael eu defnyddio yn y prawf darllen cenedlaethol. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r % o ddisgyblion a atebodd gwestiynau'r prawf darllen yn gywir yn dangos er bod medrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda neu'n dda iawn bod eu medrau 'dehongli' gwybodaeth yn parhau i fod yn her i leiafrif o'r disgyblion. Mae yn benodol o ran cwestiynau sy'n gofyn i'r disgyblion gyferio'n ôl at wybodaeth mewn tudalennau blaenorol (hyd at 6 tudalen yn flaenorol)
- Cynlluniau gwaith yn dangos cyfleoedd trawsgwricwlaidd, yn briodol i oed a gallu'r disgyblion, i ddatblygu medrau darllen o fewn y tasgau ffocws, heriau'r ardaloedd dysgu ac yn yr ardal tu allan.
- Clwb Darllen ar ôl ysgol yn cael ei gynnal ar gyfer BI 1 yn nhymor yr Haf 2015 - yn rhoi cyfleoedd amrywiol i'r disgyblion ddatblygu ac ymarfer eu sgiliau ffoneg a darllen a deall - 95% o blant y dosbarth yn mynychu.
- Clwb Darllen ar ôl ysgol wedi ei drefnu ar gyfer y rhieni yn nhymor yr Hydref 2014 – staff yn rhoi arweiniad fesul blwyddyn ysgol ynglŷn â ffyrdd o ymarfer sgiliau ffoneg a darllen a deall adref. 10% o rieni wedi mynychu.
- Plant M/D yn cael gemau/gweithgareddau cynllun ffoneg Tric a Chlic i fynd adref gyda hwy yn achlysurol er mwyn ymarfer adref a datblygu dealltwriaeth y rhieni o'r hyn mae'r plant yn ei wneud yn yr ysgol.
- Fideo ar wefan yr ysgol yn dangos y plant yn ynganu llythrennau'r wyddor yn unol â chynllun Tric a Chlic er mwyn i'r rhieni wybod sut i ynganu'r llythrennau yn gywir gyda'u plant.
- Cofnodion cynllun Tric a Chlic y dosbarth Derbyn - Mehefin 2015, yn dangos fod 84% o'r disgyblion yn dechrau cyfuno seiniau sydd bron iawn â chyrraedd y targed a osodwyd o 90% erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r disgyblion sydd heb gyflawni'r targed wedi gwneud cynnydd da yn eu gallu i adnabod llythrennau - yn rhan o'r grŵp ymyrraeth ac ar y gofrestr AAA.
- Cofnodion cynllun Tric a Chlic y dosbarth Meithrin – Mehefin 2015, yn dangos fod 100% wedi dangos cynnydd yn eu gallu i adnabod llythrennau gyda 83 % o'r disgyblion yn adnabod bob llythyren yn set gyntaf Cynllun Tric a Chlic a 23% yn adnabod llythrennau'r wyddor i gyd. Y targed â osodwyd oedd 85% yn adnabod llythrennau'r wyddor erbyn diwedd y flwyddyn.

Nôd: Strategaethau pendant yn weithredol ar gyfer datblygu ac ehangu geirfa y disgyblion

Asesiadau Incerts Mehefin 2015 yn dangos:

100% o ddisgyblion BI 2 wedi cyrraedd D5+ mewn llafaredd. 75% wedi cyrraedd D6.

PYD BI 2 -100% wedi cyrraedd D5+ mewn llafaredd. 60% wedi cyrraedd D6.

Y safonau uchel iawn wedi eu cyflawni oherwydd effaith y canlynol:

- Cyfleoedd trawsgwricwlaidd, o safon uchel, yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn cael eu cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd o fewn yn y tasgau ffocws, ardaloedd y dosbarth ac yn yr ardal tu allan - tystiolaeth yn y cynlluniau gwaith ac yn y Portffolio Framwaith Llythrennedd a portffolio Ffuriau Ysgrifennu.
- Staff yr ysgol wedi derbyn copi o sut i gwestiynu'r plant yn briodol i'w hoed a'u gallu - wedi codi ymwybyddiaeth pawb o gwestiynu effeithiol i annog y plant i ddefnyddio ffurfiau cywir ac ymestyn hyd eu hymatebion.
- Bob plentyn yn cael Testun Trafod yr Wythnos i fynd adref i annog y teulu i siarad gyda'i gilydd. Sgwad Syniadau wedi dewis y testunau. Plant yn adrodd yn ôl ar ddydd Gwener ac yn derbyn tystysgrif a sticeri am eu hymdrechion. Rhieni wedi derbyn taflen gwybodaeth ynglŷn â sut i helpu'i plant i ddatblygu sgiliau llafaredd. Holiadur rhieni (dros 50% wedi ymateb) yn dangos fod 96% yn meddwl fod y gwaith cartref sgwrsio yn syniad da a 92% am iddo barhau. Sgwad Syniadau wedi monitro ymateb holl blant yr ysgol - llawer o ddisgyblion yn mwynhau ac yn meddwl ei fod yn eu helpu i ddysgu'n well yn yr ysgol.
- Holl staff yr ysgol wedi mynychu hyfforddiant Mathew Mc Avoy a Pie Corbett ac wedi gweithredu ar y canllawiau sydd wedi arwain at ddatblygu ac ehangu geirfa'r disgyblion ar lafar ac yn eu gwaith

ysgrifenedig – gweler gwaith y plant, adroddiadau monitro/arsylwi gwersi/ craffu ar lyfrau, arddangosfeydd y dosbarth.

- Athrawon yn cyflwyno idiomau yn y dosbarth D, 1 a 2. Dreigiau Caseg wedi monitro defnydd y disgyblion o idiomau ac wedi creu llyfr idiomau i bob dosbarth. Disgyblion BI 1 a 2 yn defnyddio idiomau i gyfoethogi eu gwaith ysgrifennu – gweler llyfrau gwaith y plant. Wal idiomau wrth brif fynedfa'r ysgol yn codi ymwybyddiaeth y plant, y rhieni a'r gymuned ehangach.
- BI 2 wedi gwahodd arwres y dosbarth i'r ysgol, sef Dona Direidi, i hybu'r iaith Gymraeg. Holl blant yr ysgol wedi ymuno yn y canu, adrodd, dawnsio a dysgu rap.
- Dreigiau Caseg wedi codi ymwybyddiaeth y plant o hwiangerddi a chaneuon traddodiadol, wedi cynnal arolwg o hoff gân/hwiangerdd y teulu ac wedi ymchwilio i sut i greu rap – datblygu creadigrwydd a sgiliau llafaredd ar y cyd.
- Disgyblion llawn amser wedi mynychu sioe Hwyaden Fach Hyll yn Neuadd Ogwen a bob disgybl wedi gwylio sioe bypedau Rala Rwdins yn yr ysgol. Trip ysgol diwedd flwyddyn yn rhoi'r cyfle i'r plant wrando ar straeon traddodiadol wrth fynd ar daith trên. Hyn oll yn cyfrannu at ddatblygu ac ehangu geirfa y disgyblion.

Nôd: Defnydd i bwrpas o'r ardal tu allan i ddatblygu llythrennedd

- Cynlluniau gwaith, adroddiadau arsylwadu gwersi/monitro yn dangos cyfleoedd trawsgwricwlaidd o safon uchel yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau i ddatblygu medrau llythrennedd yn yr ardal tu allan ac yn darparu'n wahaniaethol ar gyfer yr haenau gallu.
- Cynlluniau gwaith yn dangos bod y dosbarthiadau M/D yn darparu gweithgareddau dyddiol ar gyfer yr ardal tu allan a BI 1 a 2 yn cynllunio gweithgareddau fesul cyfnod o bythefnos gyda lefel yr her yn briodol i oed a gallu'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ymhob dosbarth yn cynnwys digon o gyfleoedd i'r disgyblion wneud ddatblygu llythrennedd drwy weithgareddau creadigol a datrys problemau yn yr ardal tu allan, nad ychwaith yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dweisiadau am eu dysgu.

Nôd: Pob gwers yn 'dda' neu 'rhagorol'

- Pennaeth Strategol wedi rhannu gwybodaeth ynglŷn â diffiniad Estyn o Addysgu a Dysgu 'rhagorol' a 'da' – codi ymwybyddiaeth yr athrawon - gweler cofnodion cyfarfod staff.
- UDRh wedi arsylwi gwersi llythrennedd. Pob gwers yn 'dda'neu well – gweler adroddiadau.
- Athrawon M/D ac athrawon BI 1 a 2 yn cyd-gynllunio – sicrhau dilyniant rhwng y blynyddoedd a chysondeb o ddosbarth i ddosbarth.
- Athrawon BI 1 a 2 wedi arsylwi gwersi ei gilydd –rhannu adnoddau, arferion da ar lawr y dosbarth a dulliau Asesu ar gyfer Dysgu - disgwyliadau uchel.
- Athrawes ANG wedi ymweld â'r dosbarth M, D. a BI 1 i ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut mae disgyblion yn datblygu medrau llythrennedd drwy'r ysgol.

Nôd: Penodi cymhorthydd medrau allweddol i weithio'n benodol ar ddatblygu sgiliau llythrennedd y grwpiau amddifadedd (GAD)

- Cymhorthydd grwp GAD wedi ei phenodi i weithio gyda grwpiau targed PYD.
- Adroddiadau monitro gan cymorthyddion y grwpiau targed ac Asesiad Incerts Mehefin 2015 yn dangos: 100% disgyblion PYD wedi gwneud cynnydd da ym maes llythrennedd, iaith a Chyfathrebu

Nôd: Sicrhau bod goreuon BI 2 yn ysgrifennu yn estynedig yn annibynnol h.y. heb sgaffaldiau a'u cael i ail ddrafftio darnau penodol o'u gwaith er mwyn gwella

- Asesiadau Incerts Mehefin 2015 yn dangos: 100% o haen uchaf BI 2 wedi cyrraedd D6 mewn ysgrifennu
- Llyfrau gwaith haen uchaf BI 2 yn dangos tystiolaeth o ysgrifennu estynedig heb sgaffaldiau a'r plant yn cael cyfle i ail ddrafftio rhannau o'u gwaith - gweler adroddiadau arsylwi gwersi/ craffu ar lyfrau

Nôd: Sicrhau digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau llafaredd ac ysgrifennu cynnar y disgyblion ieuengaf o fewn yr ardaloedd dysgu

- Corneli 'sgriblo' wedi eu sefydlu yn y dosbarthiadau M/D er mwyn i'r disgyblion allu arbrofi'n annibynnol.

- Athrawon M/D yn darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau llafaredd ac ysgrifennu cynnar o fewn yr ardaloedd dysgu ac yn yr ardal tu allan – gweler cynlluniau, adroddiadau arsylwi gwersi/craffu ar lyfrau/monitro.
- Defnydd rheolaidd o weithgareddau ‘Write Dance’ a Finger Gym’ i ddatblygu cyhyrau a sgiliau ysgrifennu cynnar y disgyblion – gweler cynlluniau.
- Adroddiad Monitro Llawysgrifen Mai 2015 yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu dal offer ysgrifennu yn gywir. Y targed oedd sgiliau echddygol bras a rheoli pensil 100% o’r disgyblion yn datblygu.
- Staff wedi derbyn copi o sgript adnabod a ffurfio llythrennau ‘Tric a Chlic’ a chopi o sut i ffurfio ‘teuluoedd’ llythrennau yn gywir – sicrhau cysondeb drwy’r ysgol.

BLAENORIAETH 3: ASESU

Datblygu ymhellach prosesau asesu, tracio a gosod targedau

Strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu yn weithredol drwy’r ysgol

Nôd: Datblygu ymhellach y defnydd o ‘Incerts’ i gynllunio, gosod targedau a thracio disgyblion er mwyn sicrhau cynnydd ym mhob maes dysgu’r Cyfnod Sylfaen.

- Athrawon yn ymwybodol o’r angen i fwydo gwybodaeth gywir yn rheolaidd fel bod defnydd o’r wybodaeth yn effeithiol ar gyfer y cynllunio a’r adnabyddiaeth o anghenion penodol a manwl pob plentyn – amser digyswllt CPA a rhai cyfarfodydd staff wedi eu neilltuo ar gyfer hyn.
- Athrawon wedi trafod darganfyddiadau a materion angen sylw yn Adroddiad Monitro Incerts Ebrill 2015 – gweler cofnodion staff. Mewn dilyniant y cydgyssylltydd Mathemateg wedi cymedroli cynlluniau a gwaith y disgyblion – gweler adroddiad.
- Gwelwyd rhai engreiffiau o athrawon wedi defnyddio ‘Incerts Snap’ ar yr iPad i gofnodi tystiolaeth o asesiadau. Hyn yn arfer dda ar gyfer rhoi tystiolaeth gadarn o gyrhaeddiad.
- UDRh wedi mynychu cyfarfod gydag Ysgol Arweiniol ac ysgolion Rhwydwaith Incerts – mewn dilyniant wedi cyflwyno tystiolaeth o weithdrefnau’r ysgol ar system Incerts er mwyn ei rannu gyda’r ysgolion eraill. Dim datblygiad pellach hyd yma.

Nôd: Codi lefel yr her yn yr addysgu ar draws yr ysgol.

- Pennaeth Strategol wedi rhannu gwybodaeth ynglŷn â diffiniad Estyn o Addysgu a Dysgu ‘rhagorol’ a ‘da’ – codi ymwybyddiaeth yr athrawon - gweler cofnodion cyfarfod staff.
- Adroddiadau arsylwi gwersi yn nodi bod yr addysgu yn ‘dda’ neu ‘rhagorol’ ym mhob dosbarth.
- Athrawon M/D ac athrawon BI 1 a 2 yn cyd-gynllunio – sicrhau dilyniant rhwng y blynyddoedd a chysondeb o ddosbarth i ddosbarth.
- Athrawon BI 1 a 2 wedi arsylwi gwersi ei gilydd –rhannu adnoddau, arferion da ar lawr y dosbarth a dulliau Asesu ar gyfer Dysgu - disgwyliadau uchel.
- Athrawes ANG wedi ymweld â’r dosbarth M, D. a BI 1 i ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut mae disgyblion yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd drwy’r ysgol.

Nôd: Pob disgybl yn gweithio i’w lawn botensial.

- Adroddiad Monitro Incerts yn nodi bod bron pob un plentyn ar darged neu uwchlaw eu targed e.e.ym maes Llythrennedd, Iaith a Chyfathrebu.
- Adroddiad Monitro Incerts –UDRh yn defnyddio gwybodaeth o dracio yn effeithiol wrth adnabod y grwpiau sydd angen eu targedu ar gyfer gwelliant a’r grwpiau ‘ffiniol’ sydd angen eu herio, fel gall yr athrawon gynllunio’n benodol ar eu cyfer.

- Tystiolaeth o gyfleoedd gwahaniaethol ymestynnol ar gyfer yr haenau gallu yn y cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro/arsylwi gwersi/craffu ar lyfrau ac yng ngwaith y plant.

Nôd: Athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu ym mhob dosbarth.

- Adroddiadau arsylwi gwersi yn nodi fod defnydd da o Asesu ar gyfer Dysgu mewn bron bob un o'r gwersi. Lle gwelwyd arferion rhagorol roedd y plant yn rhan allweddol o ddewis MPLI ac yn defnyddio MPLI ar gyfer tasgau byr yn hyderus iawn. Gwelwyd arfer rhagorol gan barau yn helpu ei gilydd i wella a chywiro eu gwaith yn gyson a hyn yn amlwg yn rhan naturiol o drefn ac ethos y dysgu.
- MPLI yn cael eu harddangos ym mhob ardal ddysgu drwy'r ysgol er mwyn i'r disgyblion a'r cymorthyddion sy'n arwain y plant ieuengaf wybod sut i lwyddo yn y dasg.
- Gwelwyd tystiolaeth o 'ddwy seren a dymuniad' yn llyfrau'r disgyblion ac yn y mwyafrif o enghreifftiau ym mlynnyddoedd 1 a 2, yr adborth yn briodol i oed a gallu'r disgyblion. Adborth ysgrifenedig yn cyfeirio'n benodol at y dasg/MPLI ac yn nodi'n glir y camau y dylai'r disgyblion eu cymryd i wella. BI 2 yn cael cyfleoedd i ail-ddrafftio rhannau o'r gwaith a BI 1 a 2 yn asesu gwaith cyfoedion yn gyson ac yn llwyddiannus.
- Pennaeth strategol wedi rhannu arfer dda yr ysgol yn y maes mewn hyfforddiant CFBT.

Nôd: Disgyblion erbyn y dosbarth derbyn yn ymwybodol o sut i lwyddo mewn tasgau ac yn nodi camau ar gyfer gwelliant.

- Adroddiadau arsylwi gwersi yn nodi fod y disgyblion ieuengaf yn ymateb yn briodol i'w hoed a'u gallu. Fodd bynnag, ar adegau mewn lleiafrif o achosion, nid yw adborth ysgrifenedig yr athrawon yn ymwneud yn ddigon penodol â nôd y wers, nac ychwaith mewn iaith symbol sy'n ddigon syml i'r disgyblion eu deall. O'r herwydd, nid yw'r agweddau sydd angen eu targedau hy. y dymuniad, yn ddigon egluri bob disgybl.

BLAENORIAETH 4: Arweinyddiaeth

Nôd: Datblygu ymhellach rôl y llywodraethwyr fel cyfaill beirniadol.

- rhannwyd adroddiadau monitro yn gyson ymhob cyfarfod gan esbonio unrhyw agwedd benodol- hybwyd y llywodraethwyr i gwestiynu a holi yn eu rôl fel cyfaill beirniadol. Yr agwedd yma wedi datblygu yn dda.
- rhoddwyd hyfforddiant benodol mewn cyfarfod llawn ar adnabod safonau / deilliannau disgwylidig mewn iaith ymhob dosbarth. Nodwyd bod y cyfle yma wedi bod yn fuddiol iawn ar gyfer datblygu dealltwriaeth o ddeilliannau. Hyn yn arfer dda i'w rannu mewn meysydd eraill yn ystod y flwyddyn.
- trefnwyd 'taith addysgu' drwy bob dosbarth a chyfle i graffu drwy lyfrau hefo'r cyd-lynydd iaith a'r pennaeth i'r llywodraethwyr 'cwrwclaid'. Adroddiadau manwl gan y ddau yn arddangos cryfderau penodol yr oeddynt wedi ei weld. Cafwyd trafodaethau proffesiynol iawn a chyfle arbennig i roi yr holl waith papur 'adroddiadau' monitro mewn cyd-destun go iawn. Nodwyd yr angen i roi cyfle i'r aelodau i gyd yn eu tro i gael yr un cyfle.
- gwahoddwyd llywodraethwr i holi'r Dreigiau Caseg a Sgwad Syniadau am eu rol wrth hybu'r Siarter Iaith. Rhannwyd gwybodaeth oedd yn rhoi darlun clir o safonau'r iaith Gymraeg yn yr ysgol. Defnyddir y datblygiad yma mewn cyfarfod ffurfiol cymedrol allanol y Siarter Iaith.

Nôd: Datblygu ymhellach rol y cyd-lynwyr wrth ysgrifennu adroddiadau monitro i fod yn feintiol ac arfarnol.

- yn dilyn trafodaethau a rhannu arfer dda, mae'r cyd-lynwyr bellach yn ysgrifennu adroddiadau monitro sydd yn canolbwyntio ar fod yn feintiol ac arfarnol, sydd yn rhoi camau gweithredu penodol ac yn mynd yn ol atynt i fesur effaith y gweithredu. Hyn eto wedi cael effaith dda ar y safonau.

- yn dilyn derbyn hyfforddiant allanol, rheolaethol mae'r UDRH wedi gallu rhannu arferion a phatrymau cofnodi er mwyn hybu cysondeb ac arddull yn yr adroddiadau.

Nôd: Datblygu ymhellach rôl y Dirprwy bennaeth o fewn gweithdrefnau Hunanarfarnu yr ysgol drwy:

1. arsylwi gwersi ar y cyd gyda'r pennaeth strategol:

- arsylwyd gwrs ymhob dosbarth (adroddiad gyfansawdd wedi ei gyflwyno) gyda chymau ymlaen effeithiol wedi eu hadnabod.
- cafwyd cyfle ychwanegol i arsylwi gwersi enghreifftiol gan ymgeisywr am swydd dros dro yn yr ysgol. Dadansoddwyd cryfderau a gwendidau yn fanwl gyda'r UDRH yn cytuno arnynt. Cafwyd cyfle da i fod yn rhan lawn o'r broses benodi.

2. fentora a chynnig arweinaid a chynhaliaeth i'r athrawes ANG.

- mae'r dirprwy wedi cynnal yr athrawes Ang yn arbennig o dda drwy gydol y flwyddyn, ymhob agwedd.
- mae wedi arsylwi gwersi a rhoi chynhaliaeth wrth weithredu camau ymlaen.
- maent wedi cyd- gynllunio gan felly rannu arfer dda ac arddangos y disgwyliadau uchel sydd gan y Dirprwy – hyn yn ei dro wedi rhoi y cychwyn gorau un i'r athrawes ANG.
- cynhaliwyd cyfarfodydd mentora wythnosol yn ffurfiol- hyn wedi esgor ar ddealltwriaeth yr athrawes ANG o ddisgwyliadau uchel yr ysgol a disgwyliadau gweithdrefnau y cymhwyster sefydlu
- trefnodd y Dirprwy hyfforddiant penodol ar gyfer y cyfnod sefydlu yn ogystal ag hyfforddiant i ddatblygu blaenoriaethau CDY. Mae gan yr athrawes ANG bellach ddealltwriaeth dda o'r meysydd penodol.
- trefnodd y Dirprwy iddi arsylwi dosbarthiadau ynghyd â gweithredu ar ddatblygiadau oedd yn codi o werthuso yn dilyn ymweliadau allanol.

3. fod yn rhan lawn ac effeithiol iawn o weithredu blaenoriaethau y CDY ar y cyd â'r pennaeth strategol.

- bu'r dirprwy yn allweddol i lwyddiant yr ysgol gyfan i fynd i'r afael a gweithredu y CDY.
- bu'r dirprwy yn hynod effeithiol wrth arwain gweddill y staff i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dylestwyddau fel cyd-lynwyr, ac yn allweddol wrth hybu atebolrwydd staff cyfan wrth gynnal y safonau rhagorol yn yr ysgol.

PRESENOLDEB (rhan o'r blaenoriaethau 'Eraill')

Strategaethau i hyrwyddo presenoldeb da: 2014-15

- Athrawon yn ymwybodol o'r angen i gadw cofrestr SIMS yn gyfredol ac i ddefnyddio'r 'codau' cywir.
- Athrawon yn ymwybodol fod angen gwybod y rheswm dros absenoldeb plentyn cyn gynted â phosibl er mwyn cofnodi'r côd priodol ar y cofrestr.
- Athrawon yn hysbysu yr ysgrifenyddes os nad oes eglurhad wedi ei gyflwyno erbyn 9.30 y.b. anfon neges destun 'Teachers 2 Parents' i'r rhiant er mwyn cael eglurhad. Rhieni wedi eu hysbysu o'r drefn yma.
- Dirprwy Bennaeth yn monitro % presenoldeb yn fisol- gwiro'r codau, argraffu canrannau presenoldeb ac absenoldebau pob dosbarth, yr ysgol gyfan a'r disgyblion llawn amser.
- Dirprwy Bennaeth yn ymholi'r athrawon ynglŷn â phresenoldeb disgyblion sy'n is na 90% gan gofnodi'r rheswm dros yr absenoldeb a thrafod yr absenoldeb gyda'r athrawes ddosbarth.

- Dirprwy Bennaeth yn adrodd yn ôl i'r Pennaeth Strategol ynglŷn ag absenoldebau sy'n peri pryder oherwydd hyd yr absenoldeb neu unrhyw batrwm a welir. UDRh yn penderfynu ar y camau nesaf.
- Rhieni wedi derbyn gwybodaeth gan y Llywodraeth trwy law yr ysgol ynglŷn â gweithdrefnau cenedlaethol yn ymwneud â phresenoldeb disgyblion.
- Athrawon dosbarth yn canmol ac yn cyflwyno sticeri Presenoldeb Wythnos 100% i'r plant ar ddydd Gwener.
- Tystysgrif Presenoldeb Tymor 100% yn cael ei gyflwyno mewn gwasanaeth ysgol gyfan.
- Ni fabwysiadwyd polisi presenoldeb newydd gan na fu i'r Awdurdod Lleol gyflwyno polisi sirol diwygiedig, yn unol a'u haddewid, i ysgolion eu defnyddio fel templed (addewid gan yr ALI y bydd ysgolion y Sir yn derbyn copi o'r polisi yn fuan yn Nhymor yr Hydref 2015)

Pa bolisiau a fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol yn ystod 2014-15?

Mabwysiadwyd y bolisiau canlynol gan y Corff Llywodraethol:

- Polisi ar yr hawl i gyflwyno cais i weithio'n hyblyg
- Polisi Alcohol a Chyffuriau
- Polisi Trefn Rheoli Absenoldebau Salwch Ysgolion
- Polisi Diogelu Plant mewn Addysg
- Model Gweithdrefn Fedrusrwydd ar gyfer Staff Addysgu mewn Ysgolion

Uchafbwyntiau'r flwyddyn

- Bu'r ysgol yn cystadlu'n frwd yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen yn Nhachwedd 2014 a Sioe Dyffryn Ogwen yn Mehefin 2015 (celf a chrefft). Profwyd llwyddiant mewn nifer o gystadlaethau, a braf o beth oedd cefnogi'r eisteddfod a'r sioe leol unwaith eto.
- Cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Bu i'r plant fwynhau'r profiad yn fawr a bu i chwithau, fel rhieni a gofalwyr hefyd fynegi eich mwynhad.
- Bu'r ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd a chafwyd llwyddiant mew cystadlaethau llwyfan a chelf a chrefft.
- Trefnwyd ymweliad gan Dona Direidi gan y Dreigiau Caseg i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi
- Cafwyd cinio ysgol arbennig i ddathlu Blwyddyn Newydd Tsieiniaidd a threfnwyd gweithgareddau i ddathlu Diwrnod y Llyfr.
- Trefnwyd rynhawn 'mentergarwch' – gan roi cyfle i'r plant werthu a phrynu eu cynnyrch a chael cyfle cymdeithasol hefo'i rhieni yn yr ysgol.
- Trefnwyd taith ddiwedd y flwyddyn – i Lanberis, ar dren bach a gweithgareddau.
- Trefnwyd diwrnod Mabolgampau gam gymorthyddion yr ysgol.
- Cynhaliwyd nifer o glybiau ar ôl ysgol – Darllen, TGCh, Celf, Drama, Mathemateg, Dreigiau Caseg a Ffrangeg.

Canlyniadau Aseidiadau Diwedd y Cyfnod Sylfaen

Llythrennedd	Canlyniad diwedd CS
Deilliant 4	0%
Deilliant 5	29.2%
Deilliant 6	70.8%

Rhifedd	Canlyniad diwedd CS
Deilliant 4	4.2% (1 plentyn)
Deilliant 5	29.1%
Deilliant 6	66.7%

Personol a chymdeithasol	Canlyniad diwedd CS
Deilliant 4	0%
Deilliant 5	8.3%
Deilliant 6	91.7%

Deilliant 5 yw'r lefel disgwylidig ar gyfer disgyblion blwyddyn 2. Mae'r tabl uchod yn dangos fel y bu i ganran uchel iawn o ddisgyblion berfformio'n uwch na'r lefel ddisgwylidig gan sgorio deilliant 6. Yr unig ddisgyblion na lwyddodd i sgorio deilliant 5 neu uwch oedd y rhai hynny a oedd ag anhawsterau dysgu ac yn derbyn cymorth gan athrawes a chymhorthydd AAA.

Beth yw targedau'r ysgol ar gyfer y tair blynedd nesaf (Deilliant 5 neu well)

TARGEDAU

	2015-16	2016-17	2017-18
Personol a chymdeithasol	91.3%	100%	100%
Llythrennedd, iaith a chyfathrebu	91.3%	91.43%	96.97%
Datblygiad mathemategol	91.3%	94.29%	93.94

A oedd presenoldeb y plant yn yr ysgol yn dda?

Mae canranau presenoldeb yr ysgol wedi aros yn debyg dros y dair blynedd diwethaf, ac yn cael ei fonitro'n gyson gan y Llywodraethwyr.

2014/15

Tymor yr Hydref 2014	93.64%
Tymor y Gwanwyn 2015	96.42%
Tymor yr Haf 2015	95.08%

Cyfartaledd presenoldeb y flwyddyn **94.8%**

Targed yr ysgol yw **95%**

Absenoldebau awdurdodedig 5.10%

Absenoldebau anawdurdodedig 0.05%

Roedd hyrwyddo presenoldeb da yn un o flaenoriaethau CDY 2014/15 a bydd yn parhau i gael sylw yn y CDY 2015/16. Mae nifer o strategaethau yn cael eu gweithredu i hyrwyddo presenoldeb da ac mae targed yr ysgol ar gyfer presenoldeb wedi ei godi o 95% yn 2014/15 i 96% yn 2015/16.

Beth yw trefniadau diogelwch yr ysgol?

Mae trefniadau diogelwch i'w dilyn yn yr ysgol ac fe fyddant yn cael eu hadolygu gan y Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

Tân: cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd. Mae holl aelodau'r staff addysgu yn weithredol yn y broses ymarferion a diogelwch tân. Archwilir y diffoddyddion tân yn flynyddol gan asiantaeth allanol. Profir y goleuadau argyfwng yn rheolaidd.

Mynedfeydd: mae mynedfeydd yr ysgol wedi eu diogelu gyda chlo digidol a barrau gwthio mewnlol. Gellir cael mynediad i'r ysgol trwy ganu cloch yn y brif fynedfa. Diogelir tir yr ysgol gan ffensys a gathiau.

Adeiladau: cynhelir arolwg o adeiladau'r ysgol yn flynyddol gan is-banel o'r Llywodraethwyr ac mae'r Pennaeth yn cadw golwg ar eu diogelwch o ddydd i ddydd gan hysbysu'r awdurdodau o unrhyw beryglon.

Offer: archwilir offer addysg gorfforol yn flynyddol gan asiantaeth allanol. Archwilir holl offer trydanol yn flynyddol gan asiantaeth allanol.

Cymorth Cyntaf: mae dwy aelod o staff wedi derbyn tystysgrif Cymorth Cyntaf yn dilyn cwrs pedwar diwrnod.

Pa drefniadau a wneir ar gyfer plant anabl?

Caiff camau eu cymryd er mwyn hwyluso mynediad plant anabl i addysg gyflawn gyda rampiau, lifft a thoiled anabl yn yr ysgol. Mae cynllun gweithredu hygrychedd yn weithredol yn yr ysgol (cynllun ar wefan yr ysgol neu gellir derbyn copi gan y Pennaeth).

Beth wnaeth yr ysgol mewn chwaraeon?

Rhoddir pwyslais ar ddatblygu ffitrwydd yn yr ysgol. Cynhelir 'Dreigiau Bach' gan y cymorthyddion a'r rhieni a caiff y plant gyfle i fynd a bagiau Addysg Gorfforol adref dros y penwythnosau. Cynhelir gwersi Addysg Gorfforol a sesiynau datblygu ffitrwydd yn wythnosol gyda'r ffocws ar ddatblygu sgiliau gymnasteg, dawns a pêl. Bydd plant Blwyddyn 2 yn cael gwersi nofio hefyd. Yn ystod amseroedd chwarae mae cyfle i'r plant chwarae ag offer ffitrwydd.

Beth mae'r ysgol yn ei wneud i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach?

Caiff bwyta ac yfed yn iach ei hyrwyddo'n gyson drwy gwriciwlwm yr ysgol a thrwy'r canlynol:-

BYRBRYDAU
Ffrwythau/llysiau

Mae croeso i'r plant ddod â ffrwythau neu lysiau i'w bwyta yn ystod amser llefrith/dŵr neu gellir prynu ffrwythau yn yr ysgol am gôst o £1.25 yr wythnos. **Ni chaniateir bwyta melysion yn yr ysgol.**

Llefrith

Mae Cynulliad Llywodraeth Cymru yn talu am lefrith i blant ysgolion Cymru i'w yfed yn ystod y dydd yn yr ysgol. Mewn achos lle nad yw'r plentyn yn yfed llefrith, caniateir iddo/iddi yfed dŵr (**ni chaniateir unrhyw ddiod arall**).

Yfed dŵr

Gan bod yr ysgol yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd rydym yn awyddus i'r plant ddod â photel o ddŵr gyda hwy i'r ysgol er mwyn iddynt gael yfed dŵr yn ystod y dydd. Yn unol â chanllawiau 'Rheoli Haint ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd' anogir rhieni i lanhau poteli dŵr yn ddyddiol i leihau'r risg o halogi.

Cinio Ysgol

Mae'r bwydlen cinio'r ysgol yn cyd fynd â chanllawiau dogfen 'Blas am Oes' y Cynulliad. Pan fo plant yn dewis dod a bocsys bwyd rydym fel ysgol yn ceisio annog '**Bocsys Bwyd Iach**'.

YMARFER CORFF

Bydd y plant yn cymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol yn wythnosol yn ogystal â datblygu eu ffitrwydd yn ystod yr amseroedd egwyl a chinio drwy weithgareddau amrywiol sydd wedi eu hamserlenu ac yn cael eu harwain gan y cymorthyddion dosbarth.

Mae'r cymorthyddion gyda chymorth rhieni'r ysgol yn cynnal clwb chwaraeon 'Dreigiau Bach' (ar ôl oriau ysgol) i ddatblygu ymhellach ffitrwydd y plant.

CYFLEUSTERAU TOILED

Mae holl doiledau'r ysgol mewn cyflwr da iawn ac yn cael eu glanhau'n ddyddiol. Mae pypiau sebon pwrpasol a sychwyr dwylo ymhob un. Mae'r plant hefyd yn derbyn hyfforddiant ar sut i olchi eu dwylo'n drylwyr.

A fu newid i lawlyfr yr ysgol?

Ni fu newid o ran diwyg i lawlyfr yr ysgol, dim ond diweddarur'r wybodaeth ynddo. Mae'r llawlyfr yn cael ei ddisbarthu i bob cartref ac ar gael i'w ddarllen ar wefan yr ysgol.

Beth ddylwn wneud os wyf yn poeni am agwedd o fywyd yr ysgol?

Cysylltwch â'r Pennaeth yn syth. Mae hi'n fodlon gwrandao ar unrhyw bryder bob amser gyda'r ysgol yn gweithredu'r polisi o 'Ddrws Agored'. Gellir hefyd wneud trefniadau i gyfarfod yr athrawon pan fo rhieni angen trafod unrhyw fater. Mae hefyd yn bosibl cysylltu â llywodraethwr, yna gall ef/hi dynnu sylw'r Pennaeth i'r mater.

Datganiad Ariannol

Derbyniodd y Llywodraethwyr gopi o wariant yr ysgol yn gyson drwy'r flwyddyn a chynhaliwyd trafodaethau cyson i drafod y gyllideb a'r daflen falans.

Mae copi o'r gyllideb derfynol 14/15 ynghlwm. Roedd balans ddiwedd blwyddyn ariannol yn dangos ein bod yn cario **£96,116** o'n cyllideb trosodd. Defnyddiwyd **£51,489** ohono i osod y gyllideb ac oherwydd y rhagolygon o doriad sylweddol yn y gyllideb dros y blynyddoedd nesaf, a clustnodwyd y gweddill i gynnal y lefel staffio sy'n sicrhau dosbarthiadau gyda llai na 30 disgybl.

Rhoddion

Derbyniwyd rhoddion o £2,500 gan 'Gyfeillion yr Ysgol' yn ystod 2013-14 a defnyddiwyd yr arian i ariannu'n rhannol bryniant o ganopi ar iard yr ysgol

Gwariant y Llywodraethwyr ar Gynhaliaeth a Theithio

Penderfynodd y Corff Llywodraethol nad oeddent am hawlio cynhaliaeth a chostau teithio.

Categori Iaith

Ysgol ddwyieithog yw Ysgol Abercaseg, yn unol â Pholisi Iaith Cyngor Gwynedd.

Nod yr ysgol yw adeiladu ar y seiliau a osodwyd yn y Gymraeg gan addysg feithrin, atgyfnerthu a datblygu mamiaith dysgwyr Cymraeg ac, yn achos plant o gartrefi ble siaredir y Gymraeg, ymestyn eu gafael o'r Saesneg.


Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol dwys.

Mae'r ysgol yn adlewyrchu ac yn atgyfnerthu'r polisi iaith yn ei gweinyddiaeth, ei bywyd cymdeithasol a'i threfniadau bugeiliol yn ogystal ag yn ei darpariaeth gwricwlaidd.

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 2015 gyda meincnodi

Canran o fechgyn, merched a disgyblion yn cyrraedd y deiliant disgwyledig, o leiaf (Deiliant 5+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015
PSD	100	93	92	100	98	97	100	96	95
LCW	100	83	88	100	94	95	100	88	91
LCE	0	50	64	0	92	92	0	78	88
MDT	100	88	87	94	93	92	96	90	90
DCS	100	62	63	94	92	91	96	87	87



Perfformiad yr ysgol dros amser (2011 - 2015)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol & chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau colofnau yn cyfeirio at:

- Chwarter 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
- Chwarter 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
- Chwarter 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
- Chwarter 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim
16% neu fwy a hyd at 24% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwarter 4	Chwarter Isaf	Chwarter 3	Canolfn	Chwarter 2	Chwarter Uchaf	Chwarter 1
PSD		94		98		100	100
LCW		86		92		98	100
LCE		67		91		96	
MDT		88		91	96	96	
DCS		83		89		94	98

Mae'r melnonodau wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfartaledd tair-mlynedd data Prydau Ysgol am Ddim.

Nodiadau:

1. - = Dim data hanesyddol ar gael
2. Meysydd Dysgu: PSD = Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwyllianol; LCW = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg); LCE = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg); MDT = Datblygiad mathemategol; DCS = Dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn ennill y DCS, rhaid i ddisgybl gyrraedd y deiliant disgwyledig (Deiliant 5+), o leiaf, yn PSD ac MDT i'r dau a nalli ar LCW neu LCE.
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pinc ar gyfer bliwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwich ar gyfer y flwyddyn honno.